3.25 Perhaps the most far-reaching development in the recent history of the dyke has been the creation of the Offa's Dyke Path. One of 13 National Trails in England and Wales, the path was designated in 1955, although not officially opened until 1971.

3.26 The 293 km route runs from Prestatyn in the north to Sedbury Cliffs in the south, and scenically follows the line of 55 km of the surviving Dyke while crossing no less impressive landscapes — such as the Brecon Beacons National Park and the Clwydian Hills Area of Outstanding Natural Beauty — when off the earthwork.

3.27 The Offa's Dyke Path has made the dyke easily accessible to the general public, and given the monument a new significance as a countryside access corridor, visitor attraction and amenity resource. It has also resulted in additional erosion pressure on some stretches of the earthwork.

Summary of the dyke's historical importance

3.28 The historical development of Offa's Dyke reveals a monument with a key relationship to the social and political genesis of England and Wales, and a more immediate impact over the last 1200 years on the everyday lives of countless generations of Marches people.

3.29 In its 8th-century context Offa's Dyke can be seen as an undertaking which combines an extraordinary logistical and technical achievement with an innovative physical expression of the political ambition of an Anglo-Saxon state. Offa's Dyke is a unique product of its time, and sheds key light on the underlying contribution of Mercia and Offa to the evolution of Anglo-Saxon Britain, and on the more fundamental processes by which the cultural geography of modern Europe emerged in



nghyfnod diweddarach y milflwyddiant 1af OC.

3.30 Ers amser Offa, mae'r clawdd wedi cael dylanwad hanesyddol rhyfeddol ar agweddau a chanfyddiadau diwylliannol y cymunedau sy'n byw o'i gwmpas, ac yn wir ar strwythur yr aneddiadau a grëwyd gan y bobl hynny. Gan ei fod wedi cadw'r arwyddocâd hwn yng nghanol pwysau defnydd tir y ganrif ddiwethaf, ac yn parhau i fod â defnydd cyfoes — megis y Llwybr Cenedlaethol — gellid dadlau bod Clawdd Offa yn amlwg ymhlith holl henebion pwysig Prydain fel un sydd fwyaf gwirioneddol yn cysylltu ein bywydau modern gyda'u tarddiad hanesyddol pell.

the later 1st millennium AD.

3.30 Since Offa's time, the dyke has exercised a remarkable historical influence on the attitudes and cultural perceptions of the communities living around it, and indeed on the very structure of settlement those people have created and occupied. To the extent that it has retained this significance amid the land-use pressures of the last century and still manages to find contemporary uses — such as the National Trail — then Offa's Dyke arguably stands out among all Britain's major ancient monuments as that which most tangibly connects our modern lives with their distant historical origins.



Arwyddocâd Clawdd Offa 4 The significance of Offa's Dyke

Arwyddocâd archaeolegol a hanesyddol

- 4.1 Clawdd Offa yw henebyn archaeolegol hwyaf Prydain.
- 4.2 Mae'n henebyn rhyfeddol sy'n goroesi fel ymgorfforiad unigryw o brosesau mynegiant gwleidyddol a chenedligrwydd datblygiadol a ffurfiodd y byd gorllewinol ar ôl y Rhufeiniaid yng nghyfnod diweddarach y milflwyddiant cyntaf OC. Mae'n sylfaen i gymdeithas Ewrop hyd heddiw.
- 4.3 Mae'n henebyn gydag arwyddocâd allweddol wrth ddiffinio tarddiad cenedloedd Cymru a Lloegr a datblygiad cysylltiedig hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig a Seisnig.
- 4.4 Mae'r clawdd yn gyflawniad technegol a threfniadol hynod, o'r math a'r maint daearyddol heb ei ail yn Ewrop, yn ei gyfnod ei hunan nac yn y 1000 mlynedd dilynol hyd at y Chwyldro Diwydiannol.
- 4.5 Dyma'r strwythur adeiledig mwyaf dramatig sy'n goroesi o'r cyfnod Eingl-Sacsonaidd, ac mae'n symbol o gyfnod pwysig yn hanes Prydain sydd wedi gadael ond ychydig o olion gweledol.
- 4.6 Mae'n henebyn sydd, yng nghyd-destun deall hanes Eingl-Sacsonaidd, yn rhoi cipolwg archaeolegol allweddol ar gyfraniad Offa a theyrnas y Mers i ddatblygiad cyfnod diweddarach y milflwyddiant cyntaf ym Mhrydain.
- 4.7 Mae'r clawdd yn henebyn sy'n rhan o gyfres cenedlaethol-bwysig a gwahaniaethol o safleoedd sy'n gysylltiedig â hanes maith o wrthdaro a rhyfela yn y Gororau Cymreig.
- 4.8 Mae'n nodwedd gyfeiriadol archaeolegol unigryw yn nhirwedd leol y Gororau, gyda manylion y ffurf sydd wedi goroesi a'i berthynas â phatrwm cyffiniol anheddu, yn dangos proses ryfeddol 1200 blwyddyn o ddatblygiad a newid mewn rheolaeth tir a pherchnogaeth yng ngororau Cymru a Lloegr.
- 4.9 Mae'n adnodd archaeolegol prin, o bosibl yn gwarchod cyfres werthfawr o haenau amgylcheddol cyfoes sydd wedi eu claddu ar hyd coridor 129 km y dirwedd.

Arwyddocâd o ran tirwedd

- 4.10 Mae'r clawdd yn nodwedd unigryw o'r dirwedd sy'n gwneud cyfraniad gweledol a ffisegol sylfaenol i gymeriad a naws benodol yr ardal o gwmpas.
- 4.11 Mae'n llinell wahanu ddaearyddol bwysig sy'n parhau i

Archaeological and historical significance

- 4.1 Offa's Dyke is Britain's longest archaeological monument.
- 4.2 It is an extraordinary monument surviving as a unique embodiment of the processes of political expression and emergent nationhood which shaped the post Roman western world of the later 1st millennium AD and which still underlie European society today.
- 4.3 It is a monument with a key significance in defining the origins of the Welsh and English nations and the associated emergence of consciously held Welsh and English cultural identities.
- 4.4 The dyke is a remarkable technical and organisational achievement of a kind and geographical scale without equal in Europe either in its own time or in the following 1000 years up to the Industrial Revolution.
- 4.5 It is the most dramatic built structure surviving from Anglo-Saxon times, as such symbolising an important period in British history which has left relatively few substantial visible remains.
- 4.6 It is a monument which, in the context of understanding Anglo-Saxon history, gives a key archaeological insight into the contribution of Offa and the kingdom of Mercia to the development of later 1st millennium Britain.
- 4.7 The dyke is a monument which is part of a distinctive and nationally important complex of sites associated with the long history of conflict and warfare in the Welsh borders.
- 4.8 It is a unique archaeological reference feature in the local Marches landscape, revealing in the detail of the surviving form of the dyke today and its relationship to the surrounding pattern of settlement an extraordinary process of 1200 years of evolution and change in land management and ownership in the borders of England and Wales.
- 4.9 It is a rare archaeological resource potentially preserving a valuable sequence of contemporary buried environmental deposits along a 129 km landscape corridor.

Landscape significance

- 4.10 The dyke is a highly distinctive landscape feature which makes a unique visual and physical contribution to the particular character and feel of its local surroundings.
- 4.11 It is an important geographical dividing line which



gael ei defnyddio fel ffin rhwng plwyfi, rhwng caeau, rhwng tiroedd gwahanol berchnogion a rhwng dwy wlad.

4.12 Mae'r clawdd yn rhan annatod o'r dirwedd amaethyddol sy'n cael ei gweithio; dyma amgylchedd pennaf y clawdd.

4.13 Mae'r clawdd yn ffurfio coridor tirwedd wledig sy'n bennaf heb ei haflonyddu ac sy'n destun rheolaeth brin, gyda gwerth pwysig o safbwynt bywyd gwylt ac ecoleg.

Gwerth mwynderol

4.14 Mae Llwybr Clawdd Offa, llwybr mynediad pell sydd yn un o ddim ond 13 'Llwybr Cenedlaethol', yn dilyn hynt y clawdd, gan ddenu cerddwyr o bob cwr o Brydain a gwledydd eraill.

4.15 Mae'r clawdd yn atyniad pwysig i ymwelwyr â'r Gororau, gyda gwerth economaidd arwyddocaol i gymunedau lleol (yn gysylltiedig â Llwybr Clawdd Offa yn bennaf).

Arwyddocâd Diwylliannol

4.16 Mae'r clawdd yn faen prawf ar gyfer tarddiad diwylliannol cydnabyddedig sy'n parhau i fod ag arwyddocâd symbolaidd i bobl heddiw.

4.17 Mae'r clawdd yn edefyn ffisegol yn y dirwedd sy'n cysylltu Cymru a Lloegr ac yn pwysleisio traddodiad cyffredin cymunedau'r Gororau.

Crynodeb o arwyddocâd y clawdd

4.18 Mae Clawdd Offa yn un o henebion archaeolegol pwysicaf Gorllewin Ewrop, ac yn dystiolaeth unigryw o darddiad pobl Cymru a Lloegr. Trwy gyfrwng ei werth diwylliannol, ecolegol, gweledol a mwynderol cyfoes, mae hefyd yn rhan allweddol o dirwedd y Gororau heddiw.

remains variously in continuing contemporary use as a parish, field, ownership and national boundary.

4.12 The dyke is an integral part of the actively managed agricultural landscape which it mostly occupies.

4.13 The dyke forms a largely undisturbed and little managed rural landscape corridor which has important wildlife and ecological value.

Amenity value

4.14 The dyke is followed by the line of the Offa's Dyke Path, a prime long distance access route which is one of only 13 designated 'National Trails' and attracts walkers from all over Britain and further afield.

4.15 The dyke is an important Marches visitor attraction with significant economic value to local communities (linked primarily to the Offa's Dyke Path).

Cultural significance

4.16 The dyke is a touchstone for perceived cultural origins which continues to have symbolic significance to people today.

4.17 The dyke is a physical landscape thread which tangibly links England and Wales and emphasises the common tradition of Marches communities.

Summary of the dyke's significance

4.18 Offa's Dyke is one of the most important archaeological monuments in Western Europe, and unique evidence of the origins of the Welsh and English people. Via its contemporary cultural, ecological, visual and amenity value, it is also a key part of today's Marches landscape.



Achosion erydiad

5

Causes of erosion

Difrod parhaus i'r clawdd

5.1 Nid ffenomenon hanesyddol yn unig mo'r broses o ddifrod i Glawdd Offa (gweler adran 3), ond bygythiad gwirioneddol heddiw.

5.2 Dangosir y broblem orau mewn ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan Cadw (Burnham 1992) i fesur cyflwr y 60 km o Glawdd Offa sydd yng Nghymru. Canfu'r astudiaeth, a oedd yn seiliedig ar gyfuniad o waith maes a dadansoddiad dogfennau, bod 51% o'r henebyn archaeolegol enwocaf yng Nghymru naill ai eisoes mewn cyflwr gwael o ran cadwraeth, neu wedi ei ddinistrio yn llwyr. O ystyried bod elfen sylweddol o'r dirywiad hwnnw yn adlewyrchu difrod cyn yr 20fed ganrif, yr hyn sydd efallai yn fwy arwyddocaol yw yr ystyriwyd bod 32% o'r clawdd sydd ar ôl dan fygythiad difrifol o ddirywiad pellach heddiw. Yn wir, cafwyd bod y clawdd yng Nghymru ar hyn o bryd yn dioddef difrod ar raddfa o 130 metr y flwyddyn, ac os bydd hyn yn parhau, byddai'r gwrthglawdd cyfan yn wynebu difflaniad llwyr ymhen 150 o flynyddoedd yn unig. Tra bo'r ffigwr hwn yn broffwydoliaeth ystadegol braidd sy'n cuddio llawer o gymhlethdodau yn y patrwm gwirioneddol o bwysau ar yr henebyn, mae'n dangos maint y broblem gadwraeth y mae Clawdd Offa yn ei gynrychiolir. Atgyfnerthwyd y neges honno gan arolwg ansoddol manwl o gyflwr darnau Cymreig y clawdd yn Siroedd Trefaldwyn a Maesyfed (Burnham 1997 a 1998).

5.3 Er na wnaed gwaith ymchwil cymharol ar gyfer y cyfan o'r clawdd yn Lloegr, mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn dangos darlun tebyg iawn, rhywbeth na ddylai beri syndod (Leigh 1996, Mcglade 1996, Hoyle a Vallender 1997). Mae dadansoddiad manwl gan Wasanaeth Archaeoleg Swydd Gaerloyw o'r 15.2km o'r clawdd sy'n goroesi yn Swydd Gaerloyw wedi dangos bod 20% (yn ôl arwynebedd) o'r henebyn ar hyn o bryd yn destun prosesau erydu gweithredol. At hynny, cafwyd bod y rhan fwyaf o'r difrod hwnnw — 15% (yn ôl arwynebedd) o'r henebyn — yn ddifrod o natur ddiffrifol neu ddiffrifol iawn. Byddai tystiolaeth yr arolwg archaeolegol o'r clawdd yn y sir hefyd yn awgrymu — ar y dybiaeth bod llawer o'r bylchau yn y gwrthglawdd gweledol yn cynrychioli difrod yn y gorffennol — bod y canran o'r henebyn sydd eisoes wedi mynd yn sylweddol, er yn anodd ei fesur yn union.

5.4 Caiff y darlun o ben i ben ei gadarnhau trwy gyfrwng data a gasglwyd fel rhan o arolwg cyflwr llwybr Gwasanaeth Rheoli Llwybr Clawdd Offa (Cutts 1988). Gan ddadansoddi cyflwr y clawdd fel a welir o'r llwybr (Cymru a Lloegr), gwelwyd bod 38% o'r henebyn yn dioddef erydiad gweithredol, gyda 5% mewn cyflwr gwael iawn.

Continuing damage to the dyke

5.1 The process of active damage to Offa's Dyke is not just a historical phenomenon (see section 3), but very much a pressing threat today.

5.2 The problem is best illustrated in recent research by Cadw (Burnham 1992) to quantify the state of the 60 km of Offa's Dyke in Wales. The study, based on a combination of field work and documentary analysis, found that 51% of the archaeologically known monument in Wales was already either poorly preserved or completely destroyed. Given that a considerable element of that degradation reflects pre-20th century change, what is perhaps more significant is that 32% of the remaining dyke was perceived to be under serious threat of further deterioration today. Indeed, the dyke in Wales was found to be currently suffering damage at the rate of 130 metres each year, with the earthwork facing complete disappearance in only 150 years at this rate of destruction. While this latter calculation is something of a statistical prediction which hides many complexities in the real pattern of pressures on the monument, it still graphically illustrates the scale of the conservation problem represented by Offa's Dyke. That message has further been driven home by detailed qualitative condition survey of Welsh sections of the dyke in Montgomery and Radnorshire (Burnham 1997 and 1998).

5.3 Although comparable research for the complete length of dyke in England has not been undertaken, the work that has been done unsurprisingly reveals a very similar picture (Leigh 1996, Mcglade 1996, Hoyle and Vallender 1997). Detailed analysis by the Gloucestershire County Council Archaeology Service of the 15.2 km of surviving dyke in Gloucestershire has shown that 20% (by area) of the monument is currently subject to active erosion processes. Moreover, most of that damage — 15% (by area) of the monument — was held to be of a serious or very serious nature. The evidence of the archaeological survey of the dyke in the county would also indicate — on the presumption that the many gaps in the visible earthwork represent its past destruction — that the percentage of the monument which is already completely lost is considerable, though hard to quantify exactly.

5.4 The overall picture is confirmed through data collected as part of the recent Offa's Dyke Path Management Service path condition survey (Cutts 1998). Analysing the state of the dyke as viewed from the path (England and Wales), 38% of the monument was seen to be suffering active erosion, with 5% classified as in very poor condition.



Clawdd Offa yn nhirwedd heddiw

5.5 Yr hyn sy'n amlwg o'r corff hwn o ymchwil ddiweddar yw, tra bo Clawdd Offa wastad wedi bod yn rhan o dirwedd sy'n datblygu mewn modd sydd, yn anochel, wedi arwain at ryw gymaint o ddfrod parhaus iddo, mae'r henebyn heddiw — ar y cyd â nifer o elfennau eraill yr amgylchfyd hanesyddol — yn wynebu mwy o bwysau ar ei oroesiad hirdymor nag erioed o'r blaen.

5.6 Mae'r sefyllfa hon yn achosi pryder arbennig, yn aml oherwydd bod effaith gronnol colledion blaenorol wedi dod â'r clawdd i drothwy critigol lle mae ei gymeriad craidd a'i integredd fel nodwedd unionlin ystyrion a gweledol eisoes wedi ei beryglu i bwynt lle na ellir ymdopi â dirywiad pellach yn hawdd.

5.7 Mae dirywiad y clawdd yn gyffredinol yn deillio o ystod o achosion penodol; y prif bwnc ar hyn o bryd yw gweithgaredd amaethyddol yn arwain at erydu ar 34% o'r clawdd yng Nghymru (Burnham 1992). Mae problemau eraill a nodwyd yng Nghymru — erydiad llwybrau (4%), rheoli coetiroedd (6%), tyrchu (2%) a datblygiad (8%) yn ymddangos yn llai arwyddocaol o ran canran y clawdd yr effeithir arno, ond yn amlwg gall fod yn ddifrifol iawn mewn cyd-destun lleol, fel y mae achos Swydd Gaerloyw yn dangos yn glir (Hoyle a Vallender 1997) ac fel y mae arolwg a gysylltwyd yn benodol â Llwybr Clawdd Offa hefyd wedi dangos (Cutts 1998).

Rheoli glaswelltir

5.8 Mae gorburi yn beth cyffredin iawn ar Clawdd Offa, yn arwain at golli gwair ar rannau o'r gwrthglawdd, ac yna erydiad gweithredol ac, yn nodweddiadol iawn, tyllau y mae anifeiliaid yn eu ffurfio sy'n gallu tyfu i faint difrifol.

5.9 Gall difrod 'pori', mewn gwirionedd, adlewyrchu patrwm cymhleth o achosion. Mae'r rhain yn cynnwys effaith sychder ar y clawdd, cysgod coed neu brysgwydd a chywasgiad a achosir gan draed anifeiliaid. Rhan o'r broblem yw tuedd naturiol anifeiliaid i ymgasglu ar y clawdd (sy'n cynnig llwybr sych ar draws caeau a lle da i gysgodi) sydd o ganlyniad yn creu lefelau uwch o weithgaredd anifeiliaid ar y gwrthglawdd nag a fyddai lefelau ymddangosiadol stocio caeau yn ei awgrymu.

5.10 Gall patrymau pori penodol — er enghraifft gaeafu anifeiliaid (gwartheg yn enwedig) — waethygu erydiad, ac mae hefyd yn amlwg bod amodau hinsawdd eithafol weithiau yn ysgogiad penodol ar gyfer dirywiad glaswellt sy'n datblygu am y tro cyntaf (Berry 2000). Gall ffactorau eraill, megis dodi manau bwydo neu ffynonellau dŵr ar y clawdd, ganolbwyntio pwysau anifeiliaid domestig ar y gwrthglawdd.

Offa's Dyke in today's landscape

5.5 What is evident through this body of recent research is that, while Offa's Dyke has always been part of an evolving landscape in a way which has inevitably resulted in a certain amount of ongoing damage to it, the monument today — in common with many other components of the historic environment — faces greater pressures on its long term survival than ever before.

5.6 This situation is particularly worrying simply because the cumulative effect of previous loss has brought the dyke to a critical threshold where its core character and integrity as a coherent and visible linear feature is already compromised to the point where further degradation cannot be lightly absorbed.

5.7 The general deterioration of the dyke is the result of a range of specific causes; the principal identified issue at the present time is agricultural activity resulting in erosion on 34% of the dyke in Wales (Burnham 1992). Other problems noted in Wales — path erosion (4%), woodland management (6%), burrowing (2%) and development (8%) appear less significant in terms of the percentage amount of dyke affected, but can clearly be very serious in local circumstances, as the Gloucestershire case in particular demonstrates (Hoyle and Vallender 1997) and as survey linked specifically to the Offa's Dyke Path has also shown (Cutts 1998).

Grassland management issues

5.8 Over-grazing is a common issue on Offa's Dyke, resulting in loss of grass cover on areas of the earthwork followed by active erosion and very typically the formation of animal scrapes which can reach serious proportions.

5.9 'Grazing' damage may in fact reflect a complex pattern of causes. These include drought effects on the dyke bank, shading by trees or scrub and compaction caused by animal trampling. Part of the problem is the natural tendency of animals to congregate on the dyke (which typically affords a dry cross field path and a good place to shelter) consequently creating higher levels of animal activity on the earthwork than apparent field stocking levels might suggest would be the case.

5.10 Particular patterns of grazing — for example over-wintering of animals (especially cattle) — can increase the severity of erosion, and it is also evident that extreme climatic conditions are sometimes a specific trigger for sward deterioration to first develop (Berry 2000). Other factors, such as placing feeding stations or water sources on the dyke, can further concentrate domestic animal pressure on the earthwork.



Rheolaeth amaethyddol gyffredinol

5.11 Mae'r clawdd yn destun pwysau erydiad beunyddiol arall yn y dirwedd amaethyddol. Mae niwed gan aradr weithiau i'w weld, fel rheol yn gysylltiedig â'r duedd i aredig yn galed yn erbyn y gwrthglawdd gweledol lle mae caeau â'r yn cyffinio. Mae symud cerbydau trymion ar y clawdd neu drosto yn gallu cael effaith negyddol amlwg, yn enwedig lle mae llinell y clawdd ei hunan yn cael ei defnyddio fel trac mynediad, neu os yw'n agos at brif lidiart cae.

5.12 Mae lleoliad aml y clawdd fel nodwedd ar ymyl cae yn ei wneud yn fan lle mae offer yn cael ei storio neu ei adael, ac mae hyn yn gallu tueddu i leihau gwerth weledol y gwrthgloddiau, a chynyddu tebygolrwydd mwy o ddifrod. Gall gosod isadeiledd ffermio — ffensys, lliidiardau, draeniau ac ati — hefyd fod yn gysylltiedig â dirywiad cronol ffabrig yr henebyn.

Coetir a phrysgwydd

5.13 Mae llawer o'r clawdd wedi ei gytrefu gan brysgwydd, wedi ei blannu yn fwriadol fel gwrych, neu bellach yn bodoli mewn coetiroedd o wahanol fathau.

5.14 Mae coed/prysgwydd o'r fath yn tueddu i fod yn gysylltiedig â thwf llystyfiant gwael, gan greu arwynebau a all fod yn noeth ac agored i niwed. Gall difrod gwreiddiau i orwelion archaeolegol claddedig fod yn ddifrifol, ac mae platiau gwreiddiau coed a gaiff eu cwmpo gan y gwynt weithiau yn rhwygo elfen arwyddocaol o arwyneb y clawdd.

5.15 Os nad yw gweithgareddau rheoli coetiroedd yn cael eu trefnu yn briodol, gallant ynddynt eu hunain achosi erydiad, yn enwedig mewn cysylltiad â gweithgareddau megis torri gyda pheiriannau cynaeafu mecanyddol, neu lusgo pren dros y clawdd.

Anifeiliaid yn tyrchu

5.16 Mae cytrefiad aml y clawdd gan anifeiliaid sy'n tyrchu — cwningod a moch coed yn bennaf — yn broblem arwyddocaol ar rai darnau o'r gwrthglawdd, ac mae'n arbennig o ddrwg lle mae'r gwrthglawdd mewn coetir.

5.17 Gall gweithgareddau tyrchu achosi difrod mawr i ardaloedd cyfyngedig yr henebyn, gyda dinistr tanddaearol o orwelion archaeolegol, cwmp tir, newid yng ngolwg y gwrthglawdd, a chreithio sylweddol a phridd yn symud ar yr arwyneb.

General agricultural management issues

5.11 The dyke is subject to many other kinds of day to day erosion pressure in the agricultural landscape. Plough damage is sometimes evident, usually associated with the tendency to plough hard against the visible earthwork where it is adjoined by arable fields. Movement of heavy vehicles on or over the dyke can have an obvious negative impact, especially where the line of the dyke is itself in use as an access track or is close to a main field gateway.

5.12 The frequent location of the dyke as a field edge feature makes it a place where localised dumping or equipment storage often takes place, and this can tend to reduce the perceived value of the earthworks, and increase the likelihood of other damage episodes. Installation of farming infrastructure — fences, gateways, drainage etc — may also be associated with cumulative degradation of the monument fabric.

Woodland and scrub

5.13 Much of the dyke has been colonised by scrub, deliberately planted as a hedgerow, or else now exists in woodland of various kinds.

5.14 Such tree/scrub cover tends to be associated with poor ground vegetation growth, creating potentially bare and vulnerable surfaces. Root damage to buried archaeological horizons can be severe, and the root plates of wind blown trees sometimes tear up a significant element of the surface fabric of the dyke.

5.15 If not properly organised, woodland management operations may themselves be a cause of erosion, particularly in connection with activities such as felling with a mechanical harvester, or dragging cut timber over the dyke earthworks.

Burrowing animals

5.16 The frequent colonisation of the dyke by burrowing animals — principally rabbits and badgers — is a significant problem on some stretches of the earthwork, and is particularly prevalent where the earthwork is in woodland.

5.17 Burrowing activity can cause massive damage to localised areas of the monument, with underground destruction of archaeological horizons, subsidence, change in the appearance of the earthwork, and substantial surface scaring and earth displacement.



Mynediad ymwelwyr

5.18 Mae mynediad ymwelwyr â Chlawdd Offa — yn bennaf gysylltiedig â Llwybr Clawdd Offa sy'n dilyn 55 km y gwrthglawdd yn uniongyrchol — yn fater difrifol o safbwynt erydu mewn rhai manau. Cafodd darn Pulpud y Diafol yn Swydd Gaerloyw 32,000 o ymwelwyr ym 1995 (data Gwasanaeth Rheoli Llwybr Clawdd Offa) ac mae'r lefel hon o bwysau gan gerddwyr yn anochel wedi arwain at ddifrod yn yr ardal. Er bod y defnydd a wneir o weddill y gwrthglawdd yn dipyn llai, mae creithiau llwybr ar yr henebyn yn gyffredin, gyda 52% o'r gwrthglawdd sy'n gysylltiedig â'r Llwybr Cenedlaethol yn dioddef colledion pridd a llystyfiant (Cutts 1998).

5.19 Mae'r broblem yn cael ei chanolbwyntio yn benodol lle rhed y llwybr ar grib y clawdd, sef ardal mwyaf sensitif y gwrthglawdd o safbwynt archaeolegol, a'r un sy'n tueddu i gael ei ffafrio gan gerddwyr gan fod golygfeydd da i'w cael, a lle mae llwybr pendant i'w ddilyn. Mae traul ar lwybrau yn cyfuno ag effeithiau eraill — megis gwartheg yn mathru, cysgod a phrosesau'r tywydd — ac yn cynhyrchu nodweddion erydu mwy difrifol. Gall aflonyddu ar y gwrthglawdd sy'n gysylltiedig â gosod dodrefn llwybrau (camfeydd, grisiau ac ati) achosi difrod mwy sydyn.

Datblygiad

5.20 Mae'n amlwg bod rhannau sylweddol o'r clawdd wedi eu colli dros y blynyddoedd i ddatblygiad, gan gynnwys adeiladu ffyrdd ac adeiladau a gweithgareddau eraill megis chwarela ac ailadeiladu tirweddau amaethyddol ar raddfa fawr.

5.21 Mae'r pwysau hyn y parhau heddiw, er yn cael eu rheoli i ryw raddau dan brosesau Caniatâd Henebyn Rhestredig a PPG16 (Lloegr) a Chanllawiau Cynllunio (Cymru). Yn aml iawn, nid mater o dynnu darnau o'r clawdd yn gyfan-gwbl yw'r broblem, ond tresmasu ar leoliad yr henebyn neu niwed ar raddfa fechan i'r gwrthglawdd ei hunan sydd, er gwaethaf hynny, yn cael effaith gronol; rhybudd llesol i Clawdd Offa yw dad-restrriad rhannau o Clawdd Wat ger Bwcle oherwydd tresmasiad graddol arno gan ddatblygiadau o'i gwmpas. Mae pwysau datblygu eraill, megis ceisiadau aml ac anochel i osod gwasanaethau ar draws yr henebyn, hefyd yn cael effeithiau erydiad hirdymor.

5.22 Yn gyffredinol, mae'n wir fod gan ddatblygiad uniongyrchol, o fewn amserlen fer iawn, y gallu i fod yr un broses unigol mwyaf dinistriol yn uniongyrchol ar Clawdd Offa.

Visitor access

5.18 Visitor access to Offa's Dyke, primarily associated with the Offa's Dyke Path which directly follows 55 km of the earthwork, is a serious erosion issue at some locations. The Devil's Pulpit length of dyke in Gloucestershire had 32,000 visitors in 1995 (Offa's Dyke Path Management Service data) and this level of pedestrian pressure has inevitably resulted in considerable earthwork damage in the locality. Although usage of much of the rest of the monument is significantly less, path scars on the monument are common, with 52% of the earthwork associated with the National Trail suffering soil and vegetation loss (Cutts 1998).

5.19 The problem is particularly focused where the path occupies the crest of the dyke, which is both the most archaeologically sensitive area of the earthwork, and that which tends to be most favoured by walkers as facilitating good views and a well defined route. Path wear typically combines with a cocktail of other effects — such as cattle trampling, shading and weathering processes — to produce more serious erosion features. Disturbance of the earthwork associated with the installation of path furniture (stiles, steps etc) can be a cause of more instant damage.

Development

5.20 It is evident that considerable sections of the dyke have been lost over the years to development episodes, including construction of roads and buildings and other activities such as quarrying and large scale reconstruction of agricultural landscapes.

5.21 Such pressures very much remain today, if controlled to some extent within Scheduled Monument Consent and PPG16 (England) and Planning Guidance (Wales) processes. Very often the issue is not so much one of complete removal of the dyke as it is encroachment on the setting of the monument or small scale damage to the earthwork itself which nonetheless has a cumulative effect; a salutary warning for Offa's Dyke is the de-scheduling of sections of Wat's Dyke near Bwcle due to gradual impingement on it by surrounding development. Other development pressures, such as frequent and inevitable requests to lay services across the monument, also have a long term erosion consequence.

5.22 It is generally the case that direct development has the capacity to be, within short timescales, the single most immediately destructive process acting on Offa's Dyke.



Cadwraeth Clawdd Offa 6 Conserving Offa's Dyke

Cyflwyniad

6.1 Nid mater syml o adnabod bygythiadau i'r henebyn a chael gwared â hwy a/neu atgyweirio'r effaith mo cadwraeth hirdymor Clawdd Offa. Mae'n golygu delio gyda nodwedd gymhleth yn y dirwedd y mae ei phresenoldeb parhaus yn cysylltu gymaint gyda gwerthoedd cyfoes a gweithgareddau economaidd â chyd phrosesau hanesyddol y gorffennol.

Diffinio amcanion cadwraeth

6.2 Mae deall Clawdd Offa fel strwythur o arwyddocâd eang o reidrwydd yn golygu delio â phenderfyniadau rheoli anodd. Er enghraifft, mae coed a all fod yn gysylltiedig â difrod gwreiddiau i ffabrig yr henebyn hefyd efallai yn goed parcedir ag arwyddocâd hanesyddol ynddynt eu hunain. Mae'n bosibl eu bod yn werthfawr i'r ffermwr fel cysgod i anifeiliaid. Efallai eu bod o bwysigrwydd biolegol neu ecolegol ehangach, ac yn gwneud cyfraniad esthetig pwysig i'r dirwedd. Beth yw'r flaenoriaeth o safbwynt cadwraeth? Caiff y sefyllfa ei phwysleisio yn ffurfiol pan fo dynodiadau amddiffyniad statudol yn gwrthdaro, megis darnau o'r clawdd yn Swydd Gaerloyw lle mae'r gwrthglawdd yn rhedeg trwy Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac yn ffurfio cynefin moch coed sy'n cael eu gwarchod dan y gyfraith.

6.3 Efallai nad yw adnabyddiaeth craidd y problemau erydiad ffisegol y mae'r clawdd yn eu hwynebu mor syml ag y mae'n ymddangos. Mae arolygon a baratowyd o bersbectifau archaeolegol (Hoyle a Vallender 1997) a phersbectif rheoli llwybrau (Cutts 1998) wedi cyflwyno barn wahanol iawn o safbwynt faint o niwed llwybr a wnaed i'r gwrthglawdd, a'r mewnbwn rheoli sydd ei angen o ganlyniad. Yn yr un modd, mae problem honedig niwed gan foch coed i'r clawdd yn destun anghytundeb amlwg o ran difrifoldeb ymddangosiadol gyda grwpiau diddordeb penodol.

6.4 Mae angen cytundeb ar ran pawb ar ddulliau o drin cadwraeth (megis, er enghraifft, adlinellu Llwybr Clawdd Offa oddi ar y gwrthglawdd) a'r paramedrau — o fewn cyfyngiadau newid derbyniol — lle bernir bod ymyrraeth o'r fath yn briodol yn y lle cyntaf.

Lleoliad y clawdd

6.5 Mae Clawdd Offa yn nodwedd unionlin gyda'r bwriad gwreiddiol o berthyn i'r dirwedd o amgylch, a chael ei gweld o'r dirwedd yma, mewn ffordd strwythuredig fwriadol. Mae'r cysylltiad ehangach hwnnw â chyd-destun gweledol eang ac amgylcheddol y mae'r clawdd yn mynd trwyddo yn rhan greiddiol o'i hunaniaeth. Felly, os ydym am warchod cymeriad y

Introduction

6.1 The long term conservation of Offa's Dyke is not just a simple matter of identifying threats to the monument and removing them and/or repairing their effects. It is about engaging with a complex landscape feature whose ongoing existence is linked as much to contemporary values and economic activities as past historic processes.

Defining the conservation aims

6.2 Understanding Offa's Dyke as a structure of wide significance necessarily involves grappling with difficult management decisions. For example, trees which might be associated with root damage to the fabric of the monument, are perhaps also 19th-century parkland plantings of historical merit in themselves, have value to the farmer as shelter for stock, may be of botanical or wider ecological importance, and make a notable aesthetic contribution to the landscape. What is the conservation priority? This situation is formally emphasised where conflicting designations of statutory protection apply such as sections of the dyke in Gloucestershire where the earthwork runs through a Site of Special Scientific Interest, is a Scheduled Ancient Monument, and forms a habitat for badgers which are legally protected.

6.3 Even the core identification of the physical erosion problems the dyke faces may not be so straightforward as it appears. Surveys prepared from contrasting archaeological (Hoyle and Vallender 1997) and path management perspectives (Cutts 1998) have come up with very different views of the extent of path damage to the earthwork and the suggested management input that is accordingly required. Similarly, the supposed problem of badger damage to the dyke is subject to evident disparities of perceived seriousness by particular interest groups.

6.4 There is a need to agree collectively both conservation approaches (such as, for example, the realignment of the Offa's Dyke Path off the earthwork) and the parameters — within stated limits of acceptable change — where such intervention is judged to be appropriate in the first place.

The setting of the dyke

6.5 Offa's Dyke is a linear feature originally designed to relate to and be seen from the landscape around it in a deliberately structured way. That wider association with the broad visual and environmental context through which the dyke passes is very much a core part of its identity. Accordingly, if the character of the dyke is to be preserved,



clawdd, mae goblygiadau cadwraeth ar gyfer ffabrig y gwrthglawdd ei hunan, yn ogystal ag ar gyfer ei leoliad ffisegol ehangach. Un mater penodol yw gwarchod llinellau gweld yr henebyn, fel bod modd parhau i werthfawrogi ei natur unionlin.

6.6 Mae'r cysyniad o reoli Clawdd Offa fel rheoli coridor gweledol a hanesyddol cyfun y mae'r ardal Henebyn Rhedredig yn rhan ddaearyddol fechan yn unig ohono, yn fater yr un mor bwysig. Mae'r broses o gynllunio cadwraeth Mur Hadrian wedi sefydlu gosodiad diffiniedig a gwarchoddedig ar gyfer yr henebyn (English Heritage 1996), ac onid yw'n dilyn ei bod yn briodol ystyried datblygu dulliau o drin cadwraeth Clawdd Offa yn yr un modd.

Fframweithiau ymchwil archaeolegol

6.7 Er ei holl arwyddocâd hanesyddol, nid yw Clawdd Offa yn strwythur a ddeallir yn dda yn archaeolegol, gydag astudiaethau ohono yn dangos llawer llai o gynnydd na rhai ar henebyn cymharol megis Mur Hadrian. Mae llawer o waith i'w wneud eto er mwyn esbonio cwestiynau sylfaenol megis maint gwreiddiol y clawdd, ei swyddogaeth a'i ffurf strwythurol fanwl, ei berthynas â gwrthgloddiau tebyg megis Clawdd Wat, a lleoliad unrhyw fynedfeydd gwreiddiol. Yn wir, efallai fod gwerth archaeolegol ychwanegol sylweddol i'r clawdd o safbwynt gwarchod haenau amgylcheddol hynafol nad yw hyd yma wedi ei archwilio na'i fesur yn ddigonol. O ben i ben, mae angen arwyddocaol i chwilio am fwy o dystiolaeth sylfaenol, yn ogystal â datblygu yn greadigol prosesau o ddeall a dehongli'r deunydd sydd gennym eisoes.

6.8 Mae gan yr ansicrwydd archaeolegol hwn oblygiadau pwysig o ran rheolaeth a chyflwyniad dehongliadol y clawdd, ac mae'r angen am ymchwil archaeolegol bellach a dwyn ynghyd yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, yn fater cadwraeth pwysig ynghyd â diddordeb academaidd pur.

Agweddau pragmatig tuag at reolaeth

6.9 Mae angen i unrhyw agwedd tuag at ddelio â materion cadwraeth ar Clawdd Offa wynebu'r gwirionedd bod 'achosion' y niwed i'r gwrthglawdd yn aml yn fynegiant o'r union brosesau a greodd gymeriad nodedig yr henebyn yn y lle cyntaf, ac sydd wedi hwyluso ei oroesiad hyd heddiw.

6.10 Er enghraifft, byddai'n amlwg yn gamgymeriad ystyried rheolaeth amaethyddol y dirwedd fel un sydd o reidrwydd yn 'broblem' i Clawdd Offa; i'r gwrthwyneb, dyma'r brif gyfrwng sydd wedi creu llawer o gymeriad y

there is a conservation implication not just for the fabric of the earthwork itself, but also for the wider physical setting it sits within. A particular issue is to protect sightlines to the monument so that its linear nature can still be appreciated.

6.6 The concept of the management of Offa's Dyke as the management of a visually and historically integrated corridor of which the area of the Scheduled Ancient Monument is only a geographically small part is as an important issue. The conservation planning process for Hadrian's Wall has established a defined and protected setting for the monument (English Heritage 1996), and it is surely appropriate to look to develop approaches to the conservation of Offa's Dyke in the same way.

Archaeological research frameworks

6.7 For all its historical significance, Offa's Dyke is not an archaeologically well understood structure, with its study much less advanced than that of a comparable monument like Hadrian's Wall. A great deal of work remains to be done to clarify fundamental questions such as the original extent of the dyke, its function and detailed structural form, its relationship to other similar earthworks such as Wat's Dyke, and the location of any original entrances. Indeed, the dyke may also have a considerable additional archaeological value in terms of the preservation of ancient environmental deposits which is as yet little explored or quantified. Overall, there is a significant need not just to look for more primary evidence, but also to creatively develop processes of understanding and interpreting the material we already have.

6.8 These archaeological uncertainties have important implications for the informed management and interpretative presentation of the dyke, and the need for further archaeological research, and the pulling together of that which currently exists, is a pressing conservation issue as well as one of purely academic interest.

Pragmatic approaches to management

6.9 Any treatment of conservation issues on Offa's Dyke needs to confront the reality that the 'causes' of damage to the earthwork are often an expression of the very processes which created the distinctive character of the monument in the first place, and have facilitated its survival to the present day.

6.10 For example, it would clearly be quite wrong to project the agricultural management of the landscape as necessarily a 'problem' for Offa's Dyke; on the contrary, this is the primary agency which has created much of the 'feel' of the dyke as it



clawdd fel y mae heddiw. Trwy hwn y sicrheir cadwraeth hirdymor y gwrthglawdd. Yn wir, mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol, megis Tir Gofal yng Nghymru a Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn Lloegr, yn cynnig cyfle pwysig i ddatblygu rheolaeth ymarferol ar ddarnau hir o'r henebyn.

6.11 Yn yr un modd, efallai fod mynediad y cyhoedd sy'n gysylltiedig â Llwybr Clawdd Offa yn bryder o safbwynt erydu'r gwrthglawdd, ond mae hefyd yn arf hollbwysig o ran hybu ymwybyddiaeth ynglŷn â Chlawdd Offa, cyfrannu tuag at ei werth cyfoes, a bod yn sylfaen i gefnogaeth ac ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n ofyniad pragmatig (ynghyd â dymunol) ar gyfer cadwraeth gynaliadwy'r clawdd.

Problemau maint

6.12 Mae 105 km o Glawdd Offa yn goroesi fel gwrthglawdd ffisegol. Mae goblygiadau pwysig adnoddau a logisteg ynghlwm wrth hyn, ac angen cadwraeth ymarferol i ddatblygu systemau effeithiol sy'n gallu ymdopi â chydlyn, gweithredu a chofnodi llawer o gynlluniau rheoli unigol gwahanol.

6.13 Mae maint y clawdd hefyd yn golygu bod angen i agweddau rheoli fod yn bragmatig a chynaliadwy yn y tymor hir. Er bod gwaith atgyweirio difrod presennol yn amlwg yn briodol mewn rhai achosion, yr allwedd i gadwraeth effeithiol hirdymor fydd monitro effeithiol er mwyn adnabod dirywiad posibl yn gynnar, ynghyd â rheolaeth 'pwyth mewn pryd' rhad a rheolaidd sy'n rhwystro datblygiad problemau mwy difrifol.

Partneriaethau

6.14 Gan ei fod yn croesi 2 wlad, 6 ardal Awdurdod Lleol, amrywiol gyd-destunau amgylcheddol a nifer o berchnogion (preifat yn bennaf), mae gan nifer o gyrff ac unigolion ddiddordeb rheoli yng Nghlawdd Offa. Mae hyn yn amrywio o ffermwyr unigol neu dirfeddianwyr, i fudiadau gwirfoddol lleol ac asiantaethau llywodraeth genedlaethol (gweler adran 8).

6.15 O ganlyniad, mae'n bwysig datblygu system gyfathrebu effeithiol a phartneriaeth a gytunwyd rhwng ystod amrywiol iawn o gyrff os yw cadwraeth hirdymor y clawdd i fod yn llwyddiant.

exists today, and through which the long-term conservation of the earthwork will be secured. Indeed, current agri-environment schemes, such as Tir Gofal in Wales and Countryside Stewardship in England, present a major opportunity to develop the practical management of long sections of the monument.

6.11 In the same way, public access linked to the Offa's Dyke Path may be a concern with respect to the erosion of the earthwork, but it is also a fundamental tool in raising awareness of Offa's Dyke, contributing towards its contemporary value, and underpinning the public support and awareness that is a pragmatic (as well as desirable) requirement for the sustainable protection of the dyke.

Problems of scale

6.12 105 km of Offa's Dyke survives as a physical earthwork. This carries a major resource and logistical implication, and a practical conservation need to develop effective organisational systems which can cope with the coordination, implementation and recording of many different individual management schemes.

6.13 The scale of the dyke also informs the need for management approaches to be pragmatic and sustainable in the long term. Although major repair of existing damage is clearly appropriate in some instances, the key to effective long-term conservation has to be effective monitoring to identify potential degradation at an early stage, coupled with inexpensive and regular 'stitch-in-time' management which prevents more serious problems developing.

Partnerships

6.14 As it crosses 2 countries, 6 Local Authority areas, numerous environmental contexts, and multiple ownerships (mostly private), Offa's Dyke comes within the management interest of many different organisations and individuals. This ranges from particular farmers or landowners, to local voluntary organisations and national government agencies (see Section 8).

6.15 There is consequently a significant issue of developing effective communication and agreed partnership between a very diverse range of bodies if long-term conservation of the dyke is to be achieved.



